

## CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

### **Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 7fed o Ragfyr 2022 am 7.30yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.**

Presennol; Cyng. Catrin Johnson, Berwyn Harding, Idris Jones, Wyn Lewis, Lynne Mccrickett, John P Jones, Rhys Davies, Sion Alun Roberts a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Catrin Johnson. Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng Arfon Hughes a Geraint Morgans. Mynegwyd ein cydymdeimlad dwysaf gyda theuluoedd Tanybwllch ac Isfoel (gynt) yn eu profedigaeth lem yn ddiweddar. Llongyfarchwyd Rhys a Bethan Pengwern ar enedigaeth merch fach.
2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar y 12fed Hydref ar gynnig Cyng. Rhys Davies a'l eilio gan Cyng. Wyn Lewis.
4. **Materion yn codi**
  - a) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd yr ymateb i'r holl faterion i Gyngor Gwynedd a Cefnffyrdd ers tro diwethaf. Adroddwyd am y diweddaraf yng nghyswllt darn o dir yn Lawnt y Plas lle nad oedd sicrwydd o berchnogaeth. Roedd Adran Eiddo y Cyngor yn dweud nad oeddynt yn gwybod am ddim gwerthiant tir yn Lawnt y Plas. Roedd y Clerc wedi cysylltu gyda Adra ynglyn a'r tyllau yn y maes parcio Lawnt y Plas, ac roedd ymateb ganddynt yn dweud eu bod yn gyfrifol am y darn cul yn unig, ac y byddent yn llenwi y tyllau. Gwelwyd rwan fod rhaid aros i weld beth fyddai yn digwydd nesaf. Yng nghyswllt y coed sydd angen eu cwmpo ar y gefnffordd uwchlaw Dinas, gwelwyd y dylid gwneud trefniant i ymweld a'r safle.
  - b) **Byrddau gwybodaeth/dehongli** - adroddodd y Cadeirydd y Cyng Catrin Johnson fod y gwaith yn parhau, a'r cyswllt gyda'r Parc Cenedlaethol. Byddai rhaid eu hail wneud yn steil y Parc Cenedlaethol, a fyddai yn cynnwys logo y Cyngor Cynuned, a byddai rhaid cael cais cynllunio yn ol a ddywedwyd.
  - c) **Darnau o dir heb eu cofstru yn y Dinas** – nodwyd e-bost Cyng Arfon Hughes a oedd wedi ei ddanfôn i bawb. Roedd angen canfod pa safleoedd sydd heb berchnogaeth, a gwelwyd fod rhaid cael ymateb gan bawb erbyn y cyfarfod nesaf.
  - d) **Coeden Nadolig o flaen y Neuadd** – diolchwyd yn fawr iawn i bawb ddaeth yno i gynorthwyo i'w chodi, ac yn arbennig Hefin Davies am roi'r addurniadau arni. Diolchwyd yn fawr iawn unwaith eto i Geraint Evans Gwanas am gyfrannu y goeden a'i chludo yno, a gwelwyd y dylid danfon llythyr o ddiolch oddo unwaith eto eleni. Ei ddymuniad fel arfer oedd bod y Cyngor yn cyfrannu £50 i Sioe Dinas Mawddwy.

#### **4. Materion Cynllunio**

Roedd un cais cynllunio wedi ei ddsbarthu i'r Cynghrowyr ers y cyfarfod diwethaf, sef;

**NP5/74/181A** – trosi sgubor i breswyl a gosod tanc septig – Sgubor yn Neuadd Bryncliefion, Mallwyd. (newid disgrifiad a manylion ychwanegol)  
*Cadarnhawyd fod y Cyngor Cymuned yn gefnogol i'r cais yma, gyda'r un sylwadau a wnaethpwyd yn flaenorol, ond nodwyd y dylai fod enw Cymraeg ar yr annedd).*  
Aethpwyd ymlaen I drafod y ceisiadau canlynol oedd gerbron;

**NP5/74/L167H - Trosi capel i dŷ a gosod ffenestri to i'r edrychiad cefn - Capel Tarsus, Cwm Cywarch, Dinas Mawddwy. SY20 9JG.**

Trafodwyd yn fanwl, ac roedd dwy farn gerbron. Yn dilyn pleidlais, nodwyd fod mwyafrif clir yn gefnogol i'r cais, gan y byddai hyn yn well nag adfail yno. Nodwyd fod angen cywiro lle dywedir fod carthffosiaeth yn mynd i draeniau cyhoeddus.

**NP5/74/482B - Adeiladu tŷ menter gwledig deulawr ar wahân - Tir ger Y Fynwent, Dinas Mawddwy.**

Roedd y Cyngor yn unfrydol yn gefnogol i'r cais yma, ac am yr un rhesymau a nodwyd y tro diwethaf.

## **5. Materion Cyllid.**

Nodwyd balansau cyfrifon y Cyngor (7/12/22), sef Cyfri Cyfredol £6346.54, Cyfri Claddedigaeth £2182,28 Cyfri Cadw £769.47.

Gyda chyfeiriad at y gyllideb, aethpwyd drwy holl daliadau fyddai yn gwynebu y Cyngor o hyn hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Cytunwyd i dalu anfoneb cytundeb partneriaeth toiledau pentref Dinas gan Gyngor Gwynedd, sef £2000. Hefyd cytunwyd ar gost torch Sul y Cofio £20.

O ran y Cyfrif Claddedigaeth, cytunwyd ar gost ail-agor bedd i gladdu llwch y diweddar Meirianwen Edwards ym mynwent Llanymawddwy £110. Cytunwyd talu anfoneb Hefin Davies am dorri gwair mynwent Dinas, sef cyfanswm o £658.41 (hyn yn cynnwys £158.41 o yswiriant)

Nid oedd cesiadau am arian i law

Trafodwyd yn praesept am 2023-24, gan gyfeirio at y gyllideb. Nodwyd na fyddai cost etholiad yn gwynebu y Cyngor Cymuned y flwyddyn nesaf. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd peidio ei godi eleni oherwydd roedd rhaid derbyn fod gwasgfa ariannol ar bawb. Ar gynnig Cyng John P Jones a'i eilio gan Cyng Wyn Lewis, a chefnogaeth unfrydol, byddai y praesept yn aros felly ar £10,700.

## **6. Gohebiaeth.**

- a) Nodwyd gohebiaeth gan Cyngor Gwynedd ynglyn a digwyddiad Red Bull Hardline a oedd wedi ei ddosbarthu i'r Cynghorwyr. Roedd ymateb wedi ei roi fod y Cyngor Cymuned yn gefnogol i'r digwyddiad, - gwelwyd fod y digwyddiad yn gadarnhaol o ran lledaenu delweddau positif o'r ardal, ac yn dod ag incwm a gwaith I fusnesau lleol.
- b) Nodwyd ohebiaeth a oedd wedi ei ddanfôn i'r Cynghorwyr ynglyn ag hyfforddiant a chael cynllun wedi ei gymeradwyo. Trafodwyd y syniad o geisio adeiladu cofnod o gyrsiau a oedd wedi eu cymryd gan Gynghorwyr i'w roi ar y wefan. Roedd Cyng Arfon Hughes wedi bod yn rhan o hyfforddiant ar

zoom ynglyn a Cyllid Llywodraeth Leol, a Cyng Catrin Johnson ar y cod ymddygiad, a oedd yn gyrsiau a drefnwyd drwy fwrsari. Dywedodd Cyng Lynne Mccrickett ei bod yn awyddus i fynd ar hyfforddiant cychwynol i Gyngorwyr ar y 15fed o Ragfyr a byddai y Clerc yn trefnu. Adroddwyd fod Cyng Rhys Davies, John P Roberts, Lynne Mccrickett a'r Clerc wedi bod yn rhan o bwyllgor cyswllt blynyddol gyda'r Parc Cenedlaethol, ac y byddai yn syniad ei gynnwys.

- c) Nodwyd ymgynghoriad ar treth Cyngor ail-gartrefi a oedd wedi ei ddsbarthu ymlaenllaw I'r Cyngorwyr.
- d) Nodwyd ohebiaeth am ganllawiau Un Llais Cymru/SLCC ar fwlio ac aflonyddu - a oedd wedi ei ddsbarthu ymlaenllaw I Gyngorwyr . Pwysleisiwyd fod rhaid I bawb ddarllen a deall y canllawiau a'r oblygiadau.
- e) Nodwyd ohebiaeth ynglyn a prosiect peilot gyda Chyngor Gwynedd ynglyn a gwella manau gwyrdd cyhoeddus er mwyn gwella bioamrywiaeth.
- f) Nodwyd ohebiaeth gan Cyng Arfon Hughes am ddigwyddiad yn y Llew Coch yn Dinas am lansio taflen mapiau llwybrau ar y 6ed o Ragfyr - a ddanfonwyd i'r Cyngorwyr 4ydd Rhagfyr. Adroddodd Cyng Idris Jones yn fyr am hyn. Nodwyd fod yn anffodus fod cyn lleied o rybudd wedi bod am hyn.
- g) Nodwyd ohebiaeth gan Andy Rowland o Eco Dyfi am Gyfarfod Blynyddol ar y 13eg Rhagfyr. Roedd Cyng Rhys Davies yn ymwybodol o hyn.

## **7. Unrhyw Fater arall.**

- a) Nodwyd fod twll yn yr arhosfan ar dop rhiw Abercywarch a oedd angen sylw.
- b) Arwyddion/ Biniau baw cwn – adroddwyd fod angen biniau gan y Warden Cwn, ynghyd ag arwyddion. Diolchwyd yn fawr iawn I'r Cyng Lynn Mccrickett am ei gwaith gyda hyn oedd yn parhau.
- c) Nodwyd gwaith da yn ysgubo y ffordd yn Llanymawddwy.
- d) Roedd cwynion yn parhau am yr amseroedd aros a pha mor anodd yw gweld Doctor yn y Feddygfa ym Machynlleth. Gwelwyd y dylid ysgrifennu at y Cyngor Iechyd Cymuned.
- e) Hysybysfwrdd Mallwyd – cafwyd diweddariad gan Cyng Catrin Johnson fod y gwaith yn parhau gyda hyn,
- f) Cadarnhawyd nad oedd unrhyw ohebiaeth pellach wedi ei dderbyn yng nghyswllt Eglwys Llanymawddwy.
- g) Diolchwyd yn fawr iawn i Catrin ag Andrew am eu gwaith manwl a chywir yn paentio y llythyrennau ar y gofgolofn yn Mallwyd cyn Sul y Cofio.

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 9.05pm. Roedd lluniaeth ysgafn ar gael, a diolchwyd yn fawr iawn i'r rhai oedd wedi ei baratoi.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY NOS FERCHER  
25ain Ionawr 2023 , 7.30yh.**

